

## **CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON**

COFNODION CYNGOR 5 GORFFENNAF 2016

### Presennol

Ei Theilyngdod Y Maer – Cynghorydd B Owen

### Cynghorwyr

I C Thomas , W L Davies, W R Owen, W T Owen, H W Roberts,  
A Bohana, G Thomas, E Hughes, T Thomas, K Williams , C Williams,  
G Thomas

Siaradwr Gwadd : Selwyn Jones Cymdeithas Marchnata Caernarfon

Gwnaeth y Maer groesawu Mr Jones ar ran y Cyngor

Eglurodd Mr Jones bod pethau wedi symyd ymlaen ers i'r cais gael ei gyflwyno gan yn amlwg bod Hwb Caernarfon bellach mewn bodolaeth

Yn dymuno canolbwyntio ar y cais sef i gyllido'r daflen "dyma'r Dref"

Cydnabyddodd nad oedd y gymdeithas wedi bod mor effeithiol a dymunant a gobeithir yn hanesyddol ond bod pethau yn dechrau dod at ei gilydd . Un o elfennau llwyddiannus y Gymdeithas yn amlwg ydi'r daflen

Tynodd rhai o'r cynghorwyr i'r ffaith bod swm enfawr o arian wedi cael ei drosglwyddo i'r corff dros y blynyddoedd a dim llawer o fanylder o sut mae hyn wedi ei wario

Tynnwyd sylw i'r ffaith bod y wefan bellach yn bodoli  
[gwybodaethcaernarfon.org](http://gwybodaethcaernarfon.org)

Nodwyd bod Hwb caernarfon yn ceisio cael WIFI i'r dre

Sefyllfa presennol ydi bod y llyfryn wedi rhedeg allan a bod gwir angen print arall

Gofynodd rhai cynghorwyr os oedd modd defnyddio'r cyrff sydd yn dosbarthu pamffledi ar hyd Gogledd Cymru – ond cafwyd eglurhad mai llyfryn i bobl ddefnyddio ar ôl cyrraedd y Dre ydi hwn a bod criw lleol yn dosbarthu nhw. Bydd y prif stoc yn cael ei chadw yn y Ganolfan

Gwybodaeth

(Cyng H W Roberts a Cyng I C Thomas allan am yr eitem yma

Cyrhaeddodd Cyng W R Owen ar ôl yr eitem yma a Cyng G Thomas (c) yn gadael am 6.45)

### **1. Ymddiheuriadau**

Cyng E Lovgreen, Cyng A Hopcyn , Cyng M Thomas

### **2. Cyhoeddiadau'r Maer**

22.6.2016 Cyfarfod Blynyddol Noddfa

26.6.2016 Cyfarfod gwesteion 'Cruise Ship'

29.6.2016 Derbyn myfyrwyr o'r Almaen I'r Castell

29.6.2016 Galeri - gwylio rhaglen 'Wyt ti'n Gem'

1.7.2016 Cyfarfod coffa Lionel Rees

4.7.2016 'Ceremony of The Keys and Beating of Retreat' - Castell

### **3. Datgan Buddiant Personol**

W T Owen a W R Owen – cynllunio

I C Thomas – siaradwr gwadd,cais ariannol cymdeithas marchnata a Hijinx a trafodaethau Her Gwynedd

W R Owen – Her Gwynedd

W L Davies – cais ariannol Hijinx

H W Roberts – siaradwr gwadd a cais ariannol cymdeithas marchnata

### **4. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Dim

## 5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

- i. Cyngor, 21 Mehefin 2016  
**Penderfynwyd**  
Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)

## 6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau cynllunio

### **Penderfynwyd**

1. C16/0672/14/LL **Cytuno**  
Ail leoli 2 garafán er mwyn cymhwyso  
man chwarae newydd y trefn i'r  
estyniad newydd

**Coed Helen Caravan Park, Coed Helen  
Road, Caernarfon**

\*\*\*\*\*

2. C16/0686/14 **Cytuno**  
Amrywio'r amod rhif 2 o ganiatad  
Cynllunio cyf C12/1130/14/LL er mwyn  
galluogi defnyddio'r maes parcio am 2  
flynedd ychwanegol

**Maes Parcio, Ffordd Santes Helen, Caernarfon**

## 7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

### **Penderfynwyd**

Derbyn au talu ( unfrydol)

## 8. Cysoni Cyfrifon

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9. **Cynlluniau** : parthed wal allanol gan J M Barnard

### **Penderfynwyd**

Symud ymlaen i gael prisio'r gwaith gan cofio ystyried y tyfiant a'r  
iddew (unfrydol)

## **10.Cylchlythyr Age Cymru**

*Copi ar y bwrdd*

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

## **11.Pris goleuadau Nadolig i Top Stryd Llyn**

**Penderfynwyd**

Cytuno am 2 flynedd ar yr amod bod y busnesau yn cytunno (unfrydol)

## **12.Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Cyfle i gyfarfod 13 Gorffennaf 2016

**Penderfynwyd**

Enwau i'r clercc (unfrydol)

## **13. Cylchlythyr CADW**

**Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ( unfrydol)

## **14.Her Gwynedd**

- i) Toiledau cyhoeddus
- ii) Torri gwair a plannu
- iii) Biniau Halen
- iv) Galwad agored
- v) E-bost Antur Waunfawr parthed Canolfan Twristiaeth
- vi) E-bost E Wilcox parthed toiledau cyhoeddus

Cafwyd eglurhad gan y clercc bod Y cyngor wedi bod yn trafod y pwnc yma ers peth amser bellach a bod ni angen dechrau rhoi cig ar asgwrn fel petai .

Nifer yn cwestiynnu pam bod Cyngor Gwynedd wedi mynd o bod yn siarad am “ trosglwyddo “ a “ chi neud yn rhatach “ i mwya sydyn son am weithio mewn partneriaeth

Ar ôl cryn dipyn o drafodaeth a dim ffordd ymlaen

**Penderfynwyd**

Cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ar Awst 9fed a bod bob cynghorydd angen gael unrhyw cwestiynnau pellach i'r clercc erbyn 15fed Orffennaf er mwyn ceisio cael atebion cyn y cyfarfod (unfrydol)

## **15. Polisi drafft wasg a'r cyhoedd**

### **Penderfynwyd**

Gan bod na oblygiadau i'r Cynghorwyr sir angen gweld copi o un nhw ag ail edrych ar y sefyllfa yn y cyfarfod nesaf (unfrydol)

## **16. Cyngor Gwynedd**

Gwaharddiad Trafnidiaeth Drwodd Dros Dro 2016 – Penrallt Isaf

### **Penderfynwyd**

Derbyn er gwybodaeth ( unfrydol)

## **17. Unllais Cymru**

Rheoliadau Ariannol Drafft

### **Penderfynwyd**

Cyng H W Roberts a Cyng T Thomas i edrych arnynt efo'r clerch (unfrydol)

## **18.Ceisiadau Ariannol**

- i) Grŵp Marchnata Caernarfon
- ii) Tim Peldroed Merched Caernarfon
- iii) Hijinx (gwybodaeth pellach)

### **Penderfynwyd**

- i) Cyfrannu am costau'r pamffled sef £2139.78 (HWR a ICT allan ) (9 o blaid, 1 ymatal)
- ii) Cyfrannu £695 (unfrydol)
- iii) Cyfrannu £1500 (ICT a WLD allan) ( 7 o blaid ,1 ymatal )

( gadawodd Cyng E Hughes a Cyng C Williams adael y cyfarfod )

## **19.Unllais Cymru**

Ail gynllunio gwasanaethau cyhoeddus - pwysigrwydd strategol llwyfannau digidol

### **Penderfynwyd**

Enwau i'r clerch ( unfrydol)

## **20.Cwestiynau**

Oes posib roi datganiad i'r wasg - Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau pobl o wledydd eraill sy'n byw yn y dref nad yw Cyngor Tref Caernarfon yn cymeradwyo hiliaeth mewn unrhyw ffurf.

( gan bod angen gweithred roedd rhaid dileu rheolau sefydlog ar gyfer yr eitem yma – canitawyd hyn oherwydd amseriad y datganiad )

## **Eitem Cyfrinachol**

### **21.Prisiau Liff**

- i) Acces4all
- ii) Kone

### **Penderfynwyd**

Mynd am Kone a talu am yr elfennau ychwanegol (unfrydol)

Gorffenodd y cyfarfod am 7.43

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....